

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg,
cyflogaeth na hyfforddiant

Hydref 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Enterprise.learning.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg,
cyflogaeth na hyfforddiant

Hydref 2010



Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Caiff y Pwyllgor Menter a Dysgu ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion ym meysydd datblygu economaidd, trafnidiaeth, addysg a sgiliau. Yn arbennig, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiol.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar ôl Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael ar <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-guidance.htm>

Aelodau'r pwyllgor

Aelod Pwyllgor	Plaid	Etholaeth / Rhanbarth
Gareth Jones (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Aberconwy
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Andrew Davies	Llafur	Gorllewin Abertawe
Paul Davies	Plaid Geidwadol Cymru	Preseli Sir Benfro
Nerys Evans	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Gibbons	Llafur	Aberafan
David Melding	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Cyflwyniad	9
Beth yw “NEET”?	10
Diffiniadau	10
Achosion	11
Ystadegau	11
Cynodiadau	14
Cefndir y Polisi.....	15
Strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.....	15
Strategaethau Llywodraeth y DU.....	18
Strategaethau eraill.....	19
Gwneud i'r system bresennol weithio'n well	22
Continwwm o gefnogaeth	22
Dewis yn y cwricwlwm	25
Cysondeb cyfleoedd	27
Cydlyniad strategaeth	27
Cydweithio rhwng asiantaethau	31
Cydweithredu ar draws ffiniau	32
Cydlynu prosiectau a ariennir gan Ewrop.....	35
Meithrin y sgiliau	37
Cymorth hyfforddi	38
Casgliadau	39
Tystion	42
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	44

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Weinidogion Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y byddant yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion.

Argymhelliad 1. Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i sicrhau, drwy gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo'n briodol, bod prif ddata a data lleol yng nghyswllt pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth mor gynhwysfawr, cadarn a chyfredol â phosibl. (Tudalen 13)

Argymhelliad 2. Hefyd, yr ydym yn argymhell bod prif ddata a data lleol am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael eu bwydo'n rheolaidd i bob asiantaeth sy'n ymwneud â'r mater er mwyn sicrhau y caiff mesurau rhagweithiol ac ymatebol eu blaenoriaethu. (Tudalen 13)

Argymhelliad 3. Ac ystyried bod pobl ifanc anabl ddwywaith mor debygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant â phobl nad ydynt yn anabl, yr ydym yn argymhell y dylai cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddadansoddi data'n rheolaidd yng nghyswllt anabledd a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (Tudalen 14)

Argymhelliad 4. Yr ydym yn argymhell, fel rhan o adolygiad Gyrfa Cymru, y dylai'r Gweinidog geisio cryfhau eu perfformiad o ran rheoli cofrestr genedlaethol gyson a chynhwysfawr o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a hefyd o ran cynnal cronfa ddata a all gydweddu swyddi gwag â phobl ifanc ddi-waith. Yr ydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw swyddogaeth o fonitro perfformiad yn y maes hwn. (Tudalen 14)

Argymhelliad 5. Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwerthuso dulliau awdurdodau lleol a dulliau rhanbarthol o ymdrin â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn datblygu model o arfer gorau a chyfarwyddyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau effeithiol a'u monitro. (Tudalen 21)

Argymhelliad 6. Yr ydym yn argymell y dylai canlyniadau arolwg y Gweinidog o gefnogaeth ei Adran i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gynnwys datblygu canllawiau clir ac amlasiantaethol i sicrhau bod ymarferwyr yn mabwysiadu dull cynnar, cyson a chyfannol o ganfod y rheini sydd mewn perygl o ymddieithrio neu o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac y darperir ymyrraeth briodol yn gynnar. (Tudalen 24)

Argymhelliad 7. Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu gofynion statudol sy'n bodoli eisoes i gefnogi addysg pobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Dylai'r adolygiad gynnwys tystiolaeth gan bobl ifanc sy'n gadael gofal ac sydd yn y systemau addysg pellach ac addysg uwch a'r rheini nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. (Tudalen 25)

Argymhelliad 8. Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau o ymestyn ac ariannu arferion da rhaglenni a gynhelir gan fudiadau'r trydydd sector ledled Cymru gyfan, ar y cyd â rhaglenni awdurdodau lleol ac ysgolion ac i'w hategu. (Tudalen 26)

Argymhelliad 9. Yr ydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gynnwys cyflogwyr yn gynnar wrth weithio gyda dysgwyr, hyfforddwyr dysgu ac eraill er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o helpu pobl ifanc i symud ymlaen i sicrhau cyflogaeth neu gyfleoedd am brentisiaeth, ac yn enwedig wrth ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 10. Yr ydym yn argymell, gan fod mater pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn trawstorri nifer o Adrannau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, y dylai un Gweinidog arwain o ran cydlynu strategaethau a chynlluniau gweithredu, monitro eu gweithredu, a bod yn atebol ar lefel genedlaethol. (Tudalen 30)

Yr ydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru adolygu a diweddarau'r strategaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel ei bod yn cynnwys y grŵp oed 16 i 25, ac y dylent gyflwyno targed cenedlaethol newydd i leihau cyfran y bobl ifanc 16 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

hyfforddiant, gan sicrhau bod holl Adrannau perthnasol y Llywodraeth yn gyfrifol am ddarparu'r strategaeth. (Tudalen 31)

Argymhelliad 11. Fel rhan o'r gwerthusiad a argymhellir gennym o ddulliau awdurdodau lleol a dulliau rhanbarthol o ymdrin â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yr ydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru ganfod, ar lefel leol, asiantaeth i arwain yng nghyswllt pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dylai'r asiantaeth hon gydlynu partneriaethau, canfod cyfrifoldebau, rheoli'r daith i bobl ifanc o un cam i'r nesaf, a monitro perfformiad. (Tudalen 31)

Argymhelliad 12. Yr ydym yn argymhell y dylai Gweinidogion adolygu digonolrwydd trefniant cyfansoddiadol presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith mewn cyd-destun datganoledig a chydweithio â Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud y newidiadau y mae eu hangen i sicrhau bod y trefniant yn fwy effeithiol yn y dyfodol. (Tudalen 34)

Argymhelliad 13. Yr ydym yn argymhell bod Gweinidogion Cymru'n cydweithio â'r DU i sicrhau bod ymgynghorwyr personol a gweithwyr allgymorth yn ffurfio elfen ganolog, yn hytrach nag elfen ymylol, o weithgarwch y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gwella effeithiolrwydd eu rhaglenni ymgysylltu. (Tudalen 34)

Argymhelliad 14. Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau, os bydd mwy o bobl ifanc ddi-waith yn ymgeisio am gymorth dan y Rhaglen Waith yn y dyfodol, na fydd y rheini yng Nghymru sydd dan yr anfantais fwyaf ar eu colled, ac y gellir rhoi'r rheini sydd â'r angen mwyaf ar drywydd cyflym i gael cefnogaeth ddwysach. (Tudalen 35)

Argymhelliad 15. Yr ydym yn argymhell, er mwyn creu diwylliant o gydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio ag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gydlynu darparu prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, ac eraill, i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (Tudalen 36)

Argymhelliad 16. Yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu sut y gellid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i gaffael "sgiliau meddal" ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg,

cyflogaeth na hyfforddiant - a'r rheini sydd mewn perygl o fod felly -
mewn lleoliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. (Tudalen 38)

Argymhelliad 17. Yr ydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad
Cymru sicrhau bod hyfforddwyr ymgysylltu neu allgymorth ar gael i
ymyrryd unrhyw bryd ym mywyd person ifanc i roi cefnogaeth
uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o faterion yn ymwneud â theulu,
arian, addysg, cyflogaeth neu iechyd. (Tudalen 39)

Cyflwyniad

1. Amcangyfrifir bod 68,800 o bobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.¹ Nod yr ymchwiliad hwn gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol oedd archwilio effaith strategaethau cyfredol ar y bobl ifanc hyn a rhoi argymhellion i Weinidogion Cymru i wella'r ddarpariaeth bresennol.
2. Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn tystiolaeth ffurfiol ar y pwnc hwn rhwng 10 a 24 Mehefin 2010, ac ar 17 Mehefin, cynhaliodd ymweliad â'r Ganolfan Info-Nation yn Abertawe² i siarad yn uniongyrchol â phobl ifanc i gael clywed eu barn a'u profiadau.
3. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ddarparodd dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig i ni. Clywsom rai datganiadau pwerus a grymus iawn yn ystod yr ymchwiliad hwn. Mae'r rhestr lawn o dystiolaeth a gafwyd wedi'i rhestru ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
4. Fel rhan o'n gwaith o holi tystion, ymdrechasom hefyd i roi sylw i bwyntiau a godwyd mewn deiseb a gyflwynwyd gan Gweithredu dros Blant,³ a gyfeiriwyd atom gan y Pwyllgor Deisebau:

“Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o leoliadau dysgu seiliedig ar waith sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y bobl ifanc hynny sy'n fwy agored i niwed, ac sy'n eu symud ymlaen o ddifrif gan sicrhau eu bod yn ennill cymhwyster NVQ2 o leiaf. Yn benodol, byddem yn hoffi gweld rhagor o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sydd am gael hyfforddiant ac nad ydynt yng ngofal awdurdod lleol.”

¹ Datganiad Ystadegol Cyntaf, SDR 113/2010, 28 Gorffennaf 2010, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ni chaiff y data hyn eu dadgyfuno yn ôl awdurdodau unedol na rhanbarthau Cymru. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru, SB 59/2010, 28 Gorffennaf 2010, yn dangos amrywiad arwyddocaol yn y canran a amcangyfrifir o'r rheini sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 (16 mlwydd oed) nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth nac addysg gan awdurdod unedol, gan amrywio rhwng cyfraddau o 2.1% a 9.1% ar draws y 22 awdurdod yng Nghymru

² Siop un stop yw Info-Nation i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yng nghanol dinas Abertawe i bobl ifanc 11 i 25 oed

³ Tystiolaeth ysgrifenedig Gweithredu dros Blant paragraff 3.4. Mae Gweithredu dros Blant yn elusen DU-gyfan sy'n darparu gwasanaethau i dros 12,000 o blant a phobl ifanc agored i niwed yng Nghymru

Yr ydym yn nodi bod y Pwyllgor Deisebau'n cynnal ei ymchwiliad manylach ei hun i'r mater hwn, ond gobeithiwn y bydd argymhellion 7, 9 a 15 ein hadroddiad yn ategu canfyddiadau'r Pwyllgor hwnnw.

5. Yr oedd ein hymchwiliad yn amserol gan fod Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, wrthi'n adolygu gwaith ei adran o ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn sefyllfa ble nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yr ydym yn croesawu'r camau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd hyd yn hyn, ynghyd â'i agwedd adeiladol at roi tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Yr ydym yn ffyddiog y bydd ein casgliadau a'n hargymhellion yn helpu i roi sail i ddatblygu polisiau'r dyfodol yn y maes hwn.

Beth yw "NEET"?

Diffiniadau

6. Yn aml, caiff pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant eu galw'n "NEET". Yr oedd strategaeth NEET Llywodraeth Cynulliad Cymru⁴ yn amlinellu modd eang o gatedoreiddio pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar sail continwmm. Yr oedd yn amrywio o NEET "craidd" – y rheini a chanddynt broblemau cymdeithasol neu ymddygiadol neu anghenion eraill mwy cymhleth, gan gynnwys y rheini sy'n dod o deuluoedd ble mae peidio â gweithio'n norm a dderbynnir; i NEET "cyfnewidiol" neu "mewn perygl" – pobl ifanc sy'n tueddu i gael cyfnodau o fod yn NEET ac yn wynebu'r rhan fwyaf o broblemau'r grŵp craidd ond sy'n fwy parod i gael cefnogaeth; i NEET "pontio" neu "blwyddyn i ffwrdd" – ble nad yw'r bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant am gyfnod byr yn unig a ble nad oes angen i'r llywodraeth ymyrryd.

7. Yr oedd strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyfeirio at "llif o bobl ifanc i mewn ac allan o statws NEET - y cyfeirir ato'n aml fel y 'drysau troi' neu 'drobwl' NEET". Yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog hefyd yn cyfeirio at seiliau caled diweithdra ieuencid ac ystyrir bod hynny'n "broblem strwythurol hirsefydlog".⁵

⁴ Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Darparu sgiliau sy'n gweithio i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2009. Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o bapurau â thema sydd â'r nod o roi sylw i sgiliau a nodir yn Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes tudalen 1

Achosion

8. Yr oedd strategaeth NEET Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan bod “diffyg gwaith yn y cartref ac ymddieithrio oddi wrth addysg” yn debygol o fod yn ddau o’r prif gyfranwyr at statws NEET a bod:

- 50 y cant o’r rheini sy’n gadael gofal yn NEET ar eu 19^{eg} pen-blwydd
- pobl ifanc NEET ddwywaith mor debygol o fod â chyfrifoldebau gofalu, o gymharu â phobl ifanc eraill
- 84 y cant o famau dan 21 yn NEET, o gymharu â 46 y cant o famau hŷn
- 80 y cant o droseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr heb bump neu fwy o gymwysterau TGAU A*-C, a bod 80 y cant ohonynt heb fod mewn addysg lawn-amser adeg eu harestio.

9. Hefyd, nododd strategaeth NEET Llywodraeth Cynulliad Cymru grwpiau eraill sy’n tangyflawni mewn ysgolion a oedd mewn mwy o berygl o fod yn NEET yn nes ymlaen – bechgyn gwyn mewn rhai ardaloedd, rhai grwpiau lleiafrifol ethnig penodol, a phobl ifanc sy’n Sipsiwn a Theithwyr.

10. Datgelodd tystiolaeth a gawsom gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar fod plant a phobl ifanc fyddar yn tangyflawni’n gyson ym mhob Cyfnod Allweddol, a bod hynny’n effeithio ar eu gallu i sicrhau cyflogaeth, a bod oedolion byddar yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl nad ydynt yn anabl.⁶

11. Felly, mae’r rhesymau am i bobl ifanc beidio â bod mewn addysg neu hyfforddiant neu gyflogaeth yn gymhleth, ac yn aml yn unigol iawn.⁷ Felly, mae’r “grŵp” NEET yn amrywiol iawn, gydag anghenion amrywiol sy’n golygu bod angen defnyddio gwahanol ddulliau.

Ystadegau

12. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cyhoeddi dwy set ar wahân o ystadegau ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, tudalen 1

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, paragraff 4

hyfforddiant yng Nghymru: y Datganiad Ystadegol Cyntaf, a gyhoeddir yn flynyddol, a'r Bwletin Ystadegol.

13. Y Datganiad Ystadegol Cyntaf "Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith" yw'r ffynhonnell fwyaf cadarn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ffigurau pobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf diweddaraf yn rhoi data 2008 a 2009, er mai amcangyfrifon dros dro yw data 2009 a gyflwynwyd eleni ar sail arbrofol (yn flaenorol, cyhoeddwyd data 19 mis ar ôl y cyfnod dan sylw). Mae'r tabl canlynol o'r cyhoeddiad hwnnw'n dangos yr amcangyfrifwyd bod 12.0 y cant o bobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed a 21.6 y cant o bobl ifanc 19 i 24 mlwydd oed yng Nghymru heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn y flwyddyn a ddiweddodd yn 2009.⁸

Table 2: Estimated participation in education/training or not engaged in education or training *nor* in employment (NEET), by gender

Year End	<i>Per cent</i>			
	16 to 18 year olds		19 to 24 year olds	
	In education or training	NEET	In education or training	NEET
Persons				
2004 (r)	73.1	11.6	39.0	16.3
2005 (r)	74.5	10.3	39.1	17.4
2006 (r)	76.0	10.0	38.5	18.0
2007 (r)	74.3	11.8	37.4	17.5
2008	75.9	12.5	36.4	17.6
2009	78.6	12.0	37.9	21.6

14. Mae amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mhob un o wledydd y DU yn y blynyddoedd 2008 a 2009 hefyd wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf,⁹ ac maent yn dangos mai Cymru sy'n perfformio waethaf yn y categori 19 i 24 mlwydd oed.

⁸ Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

⁹ Darperir yr amcangyfrifon hyn drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn unig

Table 4: Estimates of the proportion of young people not in education or training employment (NEET) by age and UK country, 2008 and 2009

	<i>Per cent</i>			
	16 to 18 year olds		19 to 24 year olds	
	2008	2009	2008	2009
Wales	12.8	12.1	17.4	21.3
England	11.1	11.1	15.9	18.7
Scotland	11.8	13.0	15.6	17.5
Northern Ireland	9.0	9.7	17.3	19.2
UK	11.2	11.2	16.0	18.7

Source: Annual Population Survey

15. Rhwng cyhoeddi Datganiadau Ystadegol Cyntaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cyhoeddi Bwletin Ystadegol, “Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant”¹⁰ sy’n darparu ystadegau “mwy amserol ond llai ystadegol gadarn” ac sy’n cynnwys dadansoddi yn ôl rhyw, oed a rhanbarth.

16. Yr ydym yn croesawu symudiad diweddar Llywodraeth Cymru i gynnwys amcangyfrifon dros dro mwy amserol yn eu Datganiad Ystadegol Cyntaf ar gyfrangaeth pobl ifanc mewn addysg a’r farchnad waith, yn ogystal â’u hymrwymiad i adolygu cywirdeb yr amcangyfrifon hynny.

Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n parhau i sicrhau, drwy gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo’n briodol, bod prif ddata a data lleol yng nghyswllt pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth mor gynhwysfawr, cadarn a chyfredol â phosibl.

Hefyd, yr ydym yn argymhell bod prif ddata a data lleol am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael eu bwydo’n rheolaidd i bob asiantaeth sy’n ymwneud â’r mater er mwyn sicrhau y caiff mesurau rhagweithiol ac ymatebol eu blaenoriaethu.

17. Yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig a gawsom gan Sgil Cymru’n datgan nad yw Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys dadansoddiad o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng nghyswllt anabledde.¹¹

¹⁰ Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 ac ar gyfer plant a phobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed yn unig

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Sgil Cymru paragraff 2. Mae Sgil Cymru’n helpu pobl ifanc ac oedolion ag unrhyw fath o anabledd i wireddu eu potensial mewn addysg bellach, barhaus ac uwch, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth

Ac ystyried bod pobl ifanc anabl ddwywaith mor debygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant â phobl nad ydynt yn anabl, yr ydym yn argymhell y dylai cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddadansoddi data'n rheolaidd yng nghyswllt anabledd a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

18. Mae gan Gyrfa Cymru¹² swyddogaeth o ran rheoli cofrestr o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ac eto, yr oedd tystiolaeth a gawsom gan Rathbone Cymru'n dadlau y gallai'r gofrestr fod yn fwy cyson ledled Cymru.¹³

Yr ydym yn argymhell, fel rhan o adolygiad Gyrfa Cymru, y dylai'r Gweinidog geisio cryfhau eu perfformiad o ran rheoli cofrestr genedlaethol gyson a chynhwysfawr o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a hefyd o ran cynnal cronfa ddata a all gydweddu swyddi gwag â phobl ifanc ddi-waith. Yr ydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw swyddogaeth o fonitro perfformiad yn y maes hwn.

Cynodiadau

19. Yr ydym wedi cael tystiolaeth a oedd yn dadlau bod y term "NEET" yn "too narrow and has significant negative overtones."¹⁴ Mae'r Gweinidog eisoes wedi datgan nad enw yw'r term "NEET", ac mae Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr yn rhannu'r farn honno:

"The term 'NEET' is *fundamentally* problematic as it classifies a heterogeneous group with one label and is also a negative category."¹⁵

20. Yr oedd nifer o'r bobl ifanc a siaradodd â ni yn Info-Nation yn Abertawe'n rhannu'r farn hon. Yr oedd rhai o'r bobl ifanc wedi cynhyrchu ffilm fer, "Rydw i'n NEET"¹⁶ a oedd yn galw ar eu profiadau o geisio colli'r label NEET a brwydro yn erbyn rhai o'r tybiaethau cyffredin am bobl ifanc NEET.

¹² Mae Gyrfa Cymru'n cynnwys chwe chwmni a gontractir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cymorth penodol yng nghyswllt gyrfaedd i bobl Cymru. Mae'n cael ei adolygu gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig Rathbone Cymru tudalen 4. Mae Rathbone Cymru'n cynnal rhaglenni i bobl ifanc o 11 o ganolfannau ledled Cymru

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Sgiliau Adeiladu Cymru, tudalen 1. Sgiliau Adeiladu Cymru yw braich Cyngor Sgiliau Sector y sector adeiladu yng Nghymru

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, tudalen 3

¹⁶ Cafodd y DVD "Rydw i'n NEET" ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru drwy'r rhaglen Cyrraedd y Nod

21. Cawsom hefyd dystiolaeth a oedd yn dadlau bod y diffiniad o “NEET” yn anwybyddu pobl ifanc sydd, er enghraifft, yn gweithio ar ffermydd teuluol neu’n cael eu cyflogi gan aelodau eu teulu mewn gweithgareddau domestig megis gofalu am blant neu berthnasau.¹⁷ Yr oedd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru¹⁸ yn ystyried bod gwirfoddoli’n categori coll arall gan eu bod yn ystyried ei fod yn ganlyniad cadarnhaol i bobl ifanc a allai arwain at gyflogaeth.¹⁹ Fel y clywsom gan un person ifanc yn Abertawe, “mae gwaith gwirfoddol yn rhoi mwy o foddhad na dim.”

Cefndir y Polisi

22. Mae polisiâu sy’n berthnasol i bobl ifanc y dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn trawstorri amrywiaeth eang o ddisgyblaethau ar lefelau Cymru a’r DU, gan gynnwys datblygu economaidd, tlodi plant, iechyd meddwl, addysg, hyfforddiant a sgiliau, iechyd a lles, trafndiaeth, cyffuriau ac alcohol, cydraddoldeb, ieuencid, budd-daliadau a thai. Gall natur drawsbynciol y mater fod yn fantais, ond mae hefyd yn peri heriau sylweddol i asiantaethau feddwl a gweithio gyda’i gilydd i greu datrysiadau. Mae manylion y prif strategaethau wedi’u nodi isod.

Strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru

23. Yr oedd dogfen bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, “Y Wlad sy’n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith” (Hydref 2006) yn cynnwys targed ar gyfer:

“Canran y disgyblion 16-18 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, i fod cyn uchod â 93% erbyn 2010” (carreg filltir 2007- 90%).”

Yr oedd nifer o ymrwymadau “Cymru’n Un”²⁰ hefyd yn ymwneud â mater pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, megis cynyddu cyfraddau cyflogaeth cyffredinol, cynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael, ehangu cyfranogaeth mewn addysg bellach ac addysg uwch, a chreu cysylltiadau rhwng addysg ac entrepreneuriaeth.

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Sgiliau Adeiladu Cymru tudalen 1.

¹⁸ Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru yw cangen Cymru elusen DU gyfan sy’n helpu pobl ifanc dan anfantais

¹⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 209, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

²⁰ Cymru’n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2007

24. Ym mis Ebrill 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth, "Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Darparu sgiliau sy'n gweithio i Gymru." Yr oedd y strategaeth yn canolbwyntio ar y grŵp oed 16 i 17 mlwydd oed; **nid oes strategaeth gyffredinol ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.** Yr oedd y strategaeth yn datgan, er mwyn lleihau cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, bod angen y newidiadau canlynol:

- prosesau effeithlon ar gyfer canfod ac ailgysylltu'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- amrediad llawn o ddewisiadau dysgu i fodloni'r galw
- cymorth personol a dysgu sydd wedi'i dargedu'n well ac yn ddwysach.

25. Yr oedd y strategaeth yn datgan bod agenda pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gymhleth ac nad oes datrysiadau syml yn bodoli:

"Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael mewn ffordd integredig...yn hytrach na chyflwyno dysgu gorfodol ar ôl 16 oed, ein gweledigaeth yw gweddnewid y ddarpariaeth ddysgu i bobl ifanc, drwy gynnig dewisiadau dysgu ehangach a mwy hyblyg, ynghyd â rhagor o gymorth ac arweiniad."

26. Yr oedd y strategaeth hefyd yn datgan bod angen gwneud mwy i ddatblygu systemau mapio a monitro deallusrwydd er mwyn archwilio'r ddarpariaeth gyffredinol a chofnodi pobl newydd sy'n ymuno ac yn gadael. Yr oedd y strategaeth yn cydnabod "Yn aml, mae angen atebion pwrpasol, â chymorth ac arweiniad mwy dwys," ac y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod swyddogaeth yr Hyfforddwr Dysgu fel mentor un i un, fel y rhagwelwyd yn y cyfarwyddyd Llwybrau Dysgu gwreiddiol, ar gael i'r holl bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

27. Yr oedd Cynllun Gweithredu'n cyd-fynd â'r strategaeth, ac mae hwn yn cynnwys bwriad i adolygu'r mathau o gymorth ariannol a gynigir i bobl ifanc 16 i 19 mlwydd oed a gwerthuso'r cynllun Lwfans Cynhaliath Addysgol yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad bellach wedi'i

gwblhau,²¹ ac yr oeddem yn falch o weld bod yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor hwn y llynedd²² i dargedu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysgol yn fwy effeithiol gyda'r dysgwyr y mae ei angen fwyaf arnynt, wedi'u derbyn.

28. Yn gynharach yn 2010, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grŵp gweithredol i edrych ar daith plant a phobl ifanc 0 i 25 mlwydd oed a all ddod yn economaidd anweithgar neu ymddieithrio o ddysgu a chymdeithas, ac archwilio pa gamau sy'n cael eu cymryd. Hefyd, ym mis Chwefror 2010, sefydlodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes grŵp gorchwyl a gorffen, wedi'i gadeirio gan Martin Mansfield o TUC Cymru i ymchwilio i ddiweithdra ieuentid.²³

29. Mae strategaethau perthnasol eraill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys Adeiladu Sgiliau, sy'n rhaglen ddysgu i bob oed a gyflenwir drwy ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith wedi'u contractio i bobl "nad ydynt eto'n barod i ddechrau prentisiaeth, neu ddysgu pellach neu gyfleoedd cyflogaeth, neu na allant wneud hynny." Y cynllun hwn yw'r brif ffordd y bydd y Warrant Ieuentid (gwarant Llywodraeth Cynulliad Cymru o le dysgu i bob unigolyn 16 a 17 oed sy'n gymwys) yn cael ei chyflawni. Mae rhai strategaethau wedi cael Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, megis ENGAGE,²⁴ Genesis 2 a Phontydd i'r Gwaith.²⁵

30. Mae'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yng Nghymru wedi'i ddylunio i ganolbwyntio ar y dysgwr unigol a rhoi mwy o ddewis i bob person ifanc o ran cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n cyd-fynd yn well â'u hanghenion unigol. Ei nod yw cynnig amrywiaeth ehangach o gyrsiau gan gwricwlwm lleol a fydd yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc i'w helpu i wireddu eu potensial unigol. Y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) sy'n rhoi cyd-destun deddfwriaethol y polisi hwn.

²¹ Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Newidiadau i Gynllun Lwfansau Cynhaliaeth Addysgol Cymru, 15 Gorffennaf 2010, Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

²² Y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol, y Pwyllgor Menter a Dysgu, Mehefin 2009

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes tudalen 1

²⁴ Menter yw ENGAGE a arweinir gan awdurdodau lleol ac addysg bellach, a chaiff gefnogaeth o oddeutu £17 miliwn gan Gronfa Gydyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'i harweinir gan awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ar y cyd â Chynghorau Abertawe, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin a'r chwe choleg addysg bellach yn y rhanbarth, sydd i gyd yn darparu arian cyfatebol

²⁵ Darparodd Pontydd i'r Gwaith dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Menter a Dysgu i Gronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-2013

31. Mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant ifanc tair i saith oed hefyd yn berthnasol gan mai ei amcan yw cynnig "sylfaen gadarn ar gyfer dysgu at y dyfodol drwy gynnig cwricwlwm sy'n addas i ddatblygiad y plentyn". Mae pwyslais y Cyfnod Sylfaen ar "ddysgu drwy wneud".

Strategaethau Llywodraeth y DU

32. Ceir amrywiaeth o bolisiau Llywodraeth y DU (Yr Adran Gwaith a Phensiynau)²⁶ sy'n berthnasol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Mae nifer o'r polisiau hyn wrthi'n cael eu hadolygu, ac felly gallent newid, ond amlinellir y prif rai isod.

- Mae'r Warrant i Bobl Ifanc yn gynnig gwarantedig o swydd, hyfforddiant neu brofiad gwaith i bobl ifanc 18-24 mlwydd oed ar ôl chwe mis o ddiweithdra. Mae'r cynllun wedi'i drefnu i gael ei gynnal tan fis Mawrth 2012
- Mae Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn helpu i " greu swyddi ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phobl eraill sy'n wynebu anfantais fawr yn y farchnad waith," ac mae'n rhan o'r Warrant i Bobl Ifanc. Mae Gweinidogion wedi penderfynu, er y bodlonir yr ymrwymiadau a wnaethpwyd eisoes, na chaiff mwy o gynigion i'r Gronfa eu cymeradwyo
- Darperir y Fargen Newydd Hyblyg gan ddarparwyr y Ganolfan Byd Gwaith²⁷ a'i nod yw helpu ceiswyr gwaith i "find a job, or get training or work experience."

33. Ym mis Chwefror 2010, lansiodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Fframwaith y Farchnad Waith gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau (ar y pryd) gan amlinellu cynlluniau sy'n cynnwys lleihau nifer y bobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.²⁸ Yr oedd cyhoeddiad y Gweinidog o Gyd-gynllun Gweithredu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Ebrill 2010 yn ffurfioli trefniadau ar gyfer cynllunio a chyflenwi polisiau

²⁶ Crëwyd yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Mehefin 2001 ac mae'n gyfrifol am bolisiau lles a phensiwn. Hon yw'r adran fwyaf ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn y DU, ac mae ganddi gyfrifoldeb penodol dros bobl ifanc sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

²⁷ Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n helpu pobl i ganfod gwaith ac yn helpu cyflogwyr i lenwi eu swyddi gwag

²⁸ Cyd-gynllun Gweithredol i Gymru, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 27 Ebrill 2010

a rhaglenni pan fo cydgyfrifoldeb yn bodoli. Yn y datganiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

“Rydym am ganolbwyntio ar ddarparu rhaglenni i fynd i’r afael ag anweithgarwch ymysg pobl ifanc a diweithdra hirdymor. Rydym am alluogi pob grŵp dan anfantais i ymuno â’r farchnad lafur drwy ddarparu amrywiaeth o raglenni; rydym am ddarparu’r gweithlu medrus sydd ei angen ar gyflogwyr; ac rydym am sicrhau’r cyfleoedd gorau posibl drwy adfywio.”

34. Yr oedd cytundeb clymblaid²⁹ Llywodraeth newydd y DU yn datgan:

“We will end existing welfare to work programmes and create a single welfare to work programme to help all unemployed people get back to work.”

35. Yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a’r Ganolfan Byd Gwaith yn datgan y bydd gweledigaeth newydd Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio lles yr 21^{ain} ganrif yn cynnwys creu Rhaglen Waith sy’n cynnig cymorth personol i bob hawliwr budd-daliadau sy’n ddi-waith, gan gynnwys pobl ifanc,³⁰ ond y cedwir y Warrant i Bobl Ifanc nes i’r Rhaglen Waith gael ei chyflwyno. Aeth y dystiolaeth yn ei blaen i ddatgan y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes drwy gydol y gwaith o ddatblygu’r Rhaglen Waith.³¹

Strategaethau eraill

36. Ceir nifer o strategaethau mwy lleol sy’n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yn ystod ymweliad y Pwyllgor ag Info-Nation yn Abertawe, clywsom fod Prosiect NEET yr awdurdod lleol, dan Raglen Plant a Phobl Ifanc y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn bwriadu cynorthwyo pobl ifanc 16 i 18 oed i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn barhaol. Mae wedi bod yn gweithredu ers dwy flynedd ac mae’n ymdrin â’r holl ysgolion uwchradd, unedau a disgyblion sy’n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn Abertawe. Darperir y Prosiect drwy bartneriaeth amlasiantaethol ac fe’i cynhelir gan Gyrfa Gorllewin Cymru, gan gynnwys y staff a gyflogir

²⁹ Y Glymblaid: ein rhaglen ar gyfer llywodraethu, Swyddfa'r Cabinet, Mai 2010

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Adran Gwaith a Phensiynau a’r Ganolfan Byd Gwaith tudalen 2

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Adran Gwaith a Phensiynau a’r Ganolfan Byd Gwaith tudalen 3

gan yr awdurdod lleol. Clywsom fod strategaeth yr awdurdod lleol³² i leihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cynnwys nifer o fentrau. Cawsom wybod bod y rhain yn cynnwys ymateb amlasiantaethol; sail dystiolaeth gadarn ar gyfer cynllunio ac ymyriadau; canfod yn gynnar y rheini sydd “mewn perygl” o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym Mlwyddyn 11; gwaith ymyrryd ac atal; rhaglenni ymgysylltu wedi’u targedu yn ystod gwyliau’r Pasg a’r haf; gwaith allgymorth; a dull o ddarparu cymorth a chyngor arbenigol sy’n seiliedig ar gyflenwi gwasanaethau integredig. Mae canran y rheini sy’n gadael Blwyddyn 11 yn Abertawe heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng o 10.8 y cant yn 2006 i 6.7 y cant yn 2009.

37. Un o’r prif faterion a ddaeth i’r amlwg ar ein hymweliad ag Abertawe oedd cymhlethdod y rhaglenni a’r prosiectau a anelir at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – mae Gyrfa Gorllewin Cymru’n defnyddio eu hadnoddau i ddarparu Cynghorwyr Gyrfaoedd mewn ysgolion ac i olrhain pobl ifanc ôl-16 a’u cefnogi; mae’r Bartneriaeth 14-19 yn darparu rhywfaint o gyllid a gweithwyr allgymorth; defnyddir cyllid Cydgyfeirio’r UE (drwy ENGAGE) i dargedu a chefnogi pobl ifanc 14-19 oed yn Abertawe sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; mae’r Gwasanaeth Ieuencid yn cyflogi gweithwyr allgymorth; mae’r prosiect Genesis hefyd yn cynnig swyddi sy’n targedu pobl ifanc “graidd” nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; ac mae menter Cyrraedd y Nod³³ Cydgyfeirio’r UE yn ariannu nifer o brosiectau bach. Y pwynt allweddol a’n trawodd, fodd bynnag, oedd sut yr oedd yr awdurdod lleol yn dod â’r holl linyddau hyn at ei gilydd ac yn canolbwyntio ar anghenion unigol y person ifanc. Mae nodyn am ein hymweliad a’n sgysiau â’r bobl ifanc y cyfarfuom â hwy yn Info-Nation wedi’i gynnwys yn y rhestr o dystiolaeth lafar ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

38. Yr ydym yn credu bod y dulliau wedi’u targedu, amlasiantaethol ac ymyraethol a ddatblygwyd yn Ninas a Sir Abertawe, ac y gwelsom dystiolaeth ohonynt yn ein hymweliad ag Info-Nation, wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

³² Canfod Dyfodol: Strategaeth Abertawe i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 mlwydd oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

³³ Mae Cyrraedd y Nod yn fenter gwerth £49 miliwn a lansiwyd ym mis Mawrth 2009 i helpu oddeutu 30,000 o bobl ifanc yng Nghymru i wella eu cyfleoedd am yrfa. Fe’i cyflenwir gan amrywiaeth o bartneriaid ac fe’i hariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Llywodraeth Cynulliad Cymru a noddwyr cysylltiedig

Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwerthuso dulliau awdurdodau lleol a dulliau rhanbarthol o ymdrin â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn datblygu model o arfer gorau a chyfarwyddyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau effeithiol a'u monitro.

Gwneud i'r system bresennol weithio'n well

39. Mae ein dadansoddiad o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn wedi ein harwain i nodi rhai meysydd allweddol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth bresennol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yr ydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau dan y penawdau canlynol.

Continwmm o gefnogaeth

40. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Gyrfa Cymru, wrth ymdrin â materion pobl ifanc 16 i 24 mlwydd oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, ei bod yn bwysig edrych ar brofiadau pobl ifanc o oed llawer iau ac ar sut i "ganfod y rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET."³⁴

41. Gwnaeth ColegauCymru³⁵ bwynt tebyg pan ysgrifennodd:

"Many of those NEET will have been persistently absent from school. Thus a key focus must be on seeking ways of working with at-risk young people in school: prevention rather than cure."³⁶

42. Hefyd, cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bwysigrwydd cydgysylltu polisiau pobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a pholisiau plant dan 16 "to reflect the fact that children and young people can become NEET at any time from 4-25."³⁷

43. Codwyd yr un pwynt gan Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru,³⁸ a gan dystion eraill. Er enghraifft, dadleuodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd bod sgrinio cynnar a chanfod anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, a darparu cymorth therapi priodol, yn gost gymharol isel o gymharu â'r costau hirdymor i gymdeithas o beidio â rhoi sylw i'r materion hynny.³⁹

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru tudalen 1

³⁵ ColegauCymru/CollegesWales yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli'r 21 o golegau addysg bellach a'r ddau sefydliad addysg bellach yng Nghymru

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru paragraff 8

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru paragraff 5

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, tudalen 2

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd paragraffau 3-8

44. Clywsom yn uniongyrchol am y dadrithio a'r ymddieithrio o ddysgu a all ddigwydd yn gynnar ym mywydau pobl ifanc. Yr oedd y straeon a glywsom gan bobl ifanc yn Abertawe'n ymwneud â phrofiadau dysgu gwael, yn bennaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, a rhoddwyd y bai am hynny ar ddiffyg parch rhwng athrawon a disgyblion, a chylch cythreulig o golli hyder a theimladau ychwanegol o ddiffyg cefnogaeth a mynd ar eu hôl hi gyda'u gwaith. Ar y llaw arall, clywsom hefyd rai straeon am bobl ifanc â dyslecsia a dyspracsia nad oeddent wedi cael cymorth yn ddigon cynnar yn yr ysgol i'w galluogi i barhau â'u hastudiaethau.

45. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym, pe bai modd cyflawni canlyniadau gwell a mwy cynaliadwy i bobl ifanc yn 16 oed, "we would find that the problems at 17 and 18 were easier to overcome. All the research shows that sustainability is the issue, and the client journey is the difficulty."⁴⁰ Yr oedd Gyrfa Cymru hefyd yn credu bod "less concentrated support" i bontio pobl ifanc 18 oed o gymharu â'r cymorth a geir yn 16 oed.⁴¹

46. Ar yr un pryd, nododd Colegau Cymru bod angen sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir i'r grŵp targed 16 i 19 mlwydd oed "does not disappear at the age of 20." Dywedodd Rathbone Cymru wrthym, er bod y sylw'n tueddu i ganolbwyntio ar y garfan iau o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, bod angen rhaglenni hefyd i'r grŵp oed 19 a throsodd, wedi'u teilwra i roi sylw i'w hanghenion penodol hwy. Dadleuodd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru o blaid "joined-up package" o gymorth i bobl ifanc, p'un a ydynt yn 14 oed, yn 16 oed ynteu dros 19.

47. Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) arfaethedig yn cynnwys darpariaeth am ymgynghori am ddefnyddio'r Mesur arfaethedig ar gyfer unigolion sydd wedi cyrraedd 18 ond nad ydynt eto'n 25. Mae ystyried ymestyn Hawliau pobl ifanc hyd at 25 oed yn neddfwriaeth y Cynulliad yn ategu dull presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynnwys pobl hyd at 25 yn eu polisiau ar gyfer y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, er y credwn fod angen ffurfioli hyn, fel y trafodwn ym mharagraff 74 isod.

48. Fel yr amlinellir ym mharagraffau 8 i 11 uchod, mae rhai grwpiau penodol o bobl ifanc sydd mewn mwy o berygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig y

⁴⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 16, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴¹ Cofnod y Trafodion paragraff 27, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

Gweinidog yn cydnabod, er bod strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc pan fyddant yn cyrraedd 16, "mae tystiolaeth wedi dangos bod adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn gynnar yn hollbwysig er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddysgu."⁴²

49. Felly, cawsom ein calonogi pan ddywedodd y Gweinidog:

"We cannot begin to address the issue when young people, at 16 or older, are absent from education, employment or training. We need to dig more deeply into the root causes and look at preventive action. In other words, we have to look at the issue holistically and identify how to address it from the earliest years, recognising all the while that there can be a variety of reasons why people fall out of education, employment or training."⁴³

50. Argymhellodd Gyrfa Cymru y dylid datblygu canllawiau cenedlaethol clir "i alluogi dull cyson o ganfod y rhai hynny sydd mewn perygl o ddod yn NEET."⁴⁴

Yr ydym yn argymhell y dylai canlyniadau arolwg y Gweinidog o gefnogaeth ei Adran i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gynnwys datblygu canllawiau clir ac amlasiantaethol i sicrhau bod ymarferwyr yn mabwysiadu dull cynnar, cyson a chyfannol o ganfod y rheini sydd mewn perygl o ymddieithrio neu o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac y darperir ymyrraeth briodol yn gynnar.

51. Yn olaf, yr oedd tystiolaeth a gawsom gan Swyddogion Cyswllt Gofal Maeth Cymru'n amlinellu bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn arbennig o debygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y dyfodol, ac o'r 325 o bobl ifanc a adawodd ofal a oedd yn dal i fod mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol Cymru ar eu 19^{eg} pen-blwydd, bod 165 ohonynt ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Hefyd, nododd y sefydliad y gall cael mynediad at addysg

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes tudalen 3

⁴³ Cofnod y Trafodion paragraff 127, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff C.3; Cofnod y Trafodion paragraff 57, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

lawnamser neu addysg uwch fod yn broblem sylweddol i bobl ifanc sy'n gadael gofal.⁴⁵

Yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu gofynion statudol sy'n bodoli eisoes i gefnogi addysg pobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Dylai'r adolygiad gynnwys tystiolaeth gan bobl ifanc sy'n gadael gofal ac sydd yn y systemau addysg pellach ac addysg uwch a'r rheini nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Dewis yn y cwricwlwm

52. Yr oedd Colegau Cymru'n credu y dylai pobl ifanc gael dysgu sy'n hybu annibyniaeth, hyder a'u gallu i wneud penderfyniadau. Cyfeiriodd y Gweinidog at y dystiolaeth hon pan ddywedodd wrthym:

“The reality is that people may want to go into carpentry, plumbing and so on, but they will need basic skills to carry out a number of the tasks associated with those vocations. It is important that we do not dumb down the curriculum in any way; it is about making the curriculum relevant in that context.”⁴⁶

53. Dywedodd Rathbone Cymru wrthym:

“It is about having the flexibility within a broad education system – not just the mainstream schools – to have almost a safety-net approach, so that people do not feel that they are being left behind and stigmatised. People should have the chance to re-enter, catch up and readdress some of those background needs. Education is broader; it is not just about the subjects you study at school, but about your life, and preparing for adulthood, and recognising your individual needs in doing that.”⁴⁷

54. Yr oedd Llamau⁴⁸ hefyd yn dadlau bod angen cynnig mwy o ddewisiadau i'r bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf o ran beth a

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Swyddogion Cyswllt Gofal Maeth Cymru paragraffau 2, 4.1-5.2

⁴⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 150, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 155, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴⁸ Elusen pobl ifanc a menywod digartref yw Llamau ac mae'n darparu gwasanaethau i bobl ddigartref ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sy'n agored i niwed ac wedi'u heithrio'n gymdeithasol yn Ne Cymru

sut y byddant yn astudio er mwyn rhoi'r sgiliau perthnasol iddynt symud ymlaen i gyflogaeth barhaol.⁴⁹ Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym:

“We need a relevant offer in terms of provision. I am talking about learning, work-based learning, schools and support. We need to look at what the learner needs and ensure that we understand his or her level of engagement. We need flexibility, we need to engage employers, and we need to look at the way that provision is commissioned and funded, because it is complicated, and there are lots of organisations commissioning provision for this group.”⁵⁰

55. Aeth Gyrfa Cymru yn eu blaenau i gwestiynu a yw:

“The learning styles are right for these young people or whether they are being asked to learn in a way that is too uniform across the board. Therefore, things such as extended work experience, where they get the chance to spend time with an employer, and programmes where further education offers pre-16 courses, often appeal and are successful with this group of young people.”⁵¹

56. Fodd bynnag, soniodd Gyrfa Cymru am y “slightly scattergun approach” a ddefnyddir ar draws gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly, yr oedd gennym ddiddordeb mewn clywed am raglen xl Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru a gynhelir y tu allan i'r ysgol i bobl ifanc 14 i 16 oed, sy'n ymdrin â dinasyddiaeth, menter a phrosiectau cymunedol, ac yn galluogi cyfranogwyr i ennill sgiliau meddal yn ogystal â rhifedd a llythrennedd cymhwysol.

57. Mae gan Fairbridge De Cymru hefyd hanes da o ran cynnal rhaglenni. Dywedwyd wrthym fod 72 y cant o'r bobl ifanc a weithiodd gyda hwy'r llynedd wedi mynd ymlaen i gyflawni o leiaf un canlyniad cadarnhaol, megis dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, dechrau cwrs coleg neu gael cymhwyster.

Yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau o ymestyn ac ariannu arferion da rhaglenni a gynhelir gan fudiadau'r trydydd sector ledled Cymru gyfan, ar y cyd â rhaglenni awdurdodau lleol ac ysgolion ac i'w hategu.

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Llamau tudalen 3

⁵⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 19, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁵¹ Cofnod y Trafodion paragraff 28, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

Cysondeb cyfleoedd

58. Yr oedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru'n datgan bod Adeiladu Sgiliau wedi gwneud cyfraniad sylweddol ym Mlaenau Gwent i leihau canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 9.1 y cant yn 2008 i 6.6 y cant yn 2009.⁵²

59. Dywedodd pobl ifanc yn Abertawe a oedd wedi mynychu'r cwrs Adeiladu Sgiliau i wella eu sgiliau meddal/sylfaenol wrthym eu bod yn teimlo y bu'n brofiad cadarnhaol, er y bu rhywfaint o ddadurthio oherwydd nad oedd dim cyfleoedd am swyddi ar gael ar ôl i'r lleoliad 13 wythnos ddiweddu. Mynegwyd pryder am y diffyg cyffredinol o gyfleoedd am brentisiaethau gan nifer o'r bobl ifanc a'u gweithwyr prosiect. "Just give us a job,"⁵³ dywedwyd wrthym.

60. Mae angen torri'r syndrom "drws troi" hwn o bobl ifanc yn symud o ddarparwr i ddarparwr heb wneud unrhyw gynnydd.

61. Cododd Gyrfa Cymru bwysigrwydd gwella'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc a chanddynt anawsterau dysgu ac anabledau. Er y gall fod cyrsiau ar gael yn y sector addysg bellach, clywsom fod angen i gyflogwyr ymwneud mwy â'r cynlluniau hynny.⁵⁴

Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gynnwys cyflogwyr yn gynnar wrth weithio gyda dysgwyr, hyfforddwyr dysgu ac eraill er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o helpu pobl ifanc i symud ymlaen i sicrhau cyflogaeth neu gyfleoedd am brentisiaeth, ac yn enwedig wrth ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cydlyniad strategaeth

62. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Fairbridge De Cymru fod datrys problem pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn galw am ddull cyfannol, gan roi sylw i anghenion cyffredinol y cymunedau ble mae'r bobl ifanc hynny'n byw – megis

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru paragraff 1.3

⁵³ Sylw gan bobl ifanc yn Info-Nation, Abertawe, 17 Mehefin 2010

⁵⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 59, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

materion yn ymwneud â thlodi plant, iechyd a lles, addysg a thrafnidiaeth.⁵⁵

63. Cydnabu Fairbridge fod nifer o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael effaith gadarnhaol, a bod strategaethau ar lefel Gweinidogion a swyddogion uwch wedi'u llunio'n dda, ond yr oeddent yn ystyried bod y rhaglenni a'r mentrau'n "numerous, overlapping and somewhat uncoordinated" gan nad oes digon o adnoddau i sicrhau eu bod yn "linked and tailored to contribute to the strategy."⁵⁶

64. Dywedodd Rathbone Cymru hefyd nad oedd y rhaglenni sy'n canolbwyntio ar grwpiau "mewn perygl" penodol mor ffurfiol na hygyrch ag y dylent fod, a bod nifer ohonynt yn "seem to work in isolation and are failing to develop links into some areas of mainstream provision."⁵⁷

65. Nododd Gyrfa Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, ers cyhoeddi strategaeth NEET Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009, "mae cynnydd wedi bod yn anghyson mewn perthynas â gweithredu a sefydlu ffordd glir ymlaen i Gymru, er yr ymddengys bod y camau'n cyflymu erbyn hyn gyda grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog."⁵⁸

66. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, yr oedd Gyrfa Cymru'n dadlau bod nifer o randdeiliaid yn gobeithio gweld "mwy o arweiniad a chyfeiriad" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a bod:

"Diffyg strategaeth a pholisi cydgysylltiedig, cydlyniant a chynllunio ar lefel genedlaethol a lefel leol nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio i'w heithaf. Ymddengys weithiau fod gwahanol adrannau'r Cynulliad yn aneglur ynglŷn â'r modd y mae mentrau ar draws Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n perthnasu i'w gilydd."

67. Felly, argymhellodd Gyrfa Cymru y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud mwy i ddatblygu'r ymateb strategol trawsadrannol diweddar i Ddiweithdra leuenctid mewn partneriaeth â phrif sefydliadau allanol er mwyn "cyflawni dull cydgysylltiedig wedi ei gydlynu, gan leihau dyblygiad a datblygu ar ymarfer da a ganfyddir." Awgrymodd Gyrfa Cymru hefyd, oherwydd bod tirwedd y ddarpariaeth

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru tudalen 3

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru tudalen 3

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Rathbone Cymru tudalen 3

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff A.1.1

yn gymhleth i bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, y dylid sefydlu un asiantaeth i gydlynu cefnogaeth a helpu i sicrhau bod asiantaethau'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd.⁵⁹

“In Careers Wales, we think that local authorities should do it for pre-16s, it should be Careers Wales for those who are between 16 and 18 years of age, and it should be JobCentre Plus for people who are 18 and over.”⁶⁰

68. Aeth Gyrfa Cymru yn eu blaenau i ddatgan:

“Argymhellir y dylid cyflwyno partneriaethau / cyfeiriadau strategol sy'n canolbwyntio ar yr agenda NEET yn raddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, wedi eu cadeirio a'u cydlynu gan y sefydliadau arweiniol. Dylai strategaethau rhanbarthol fod yn seiliedig ar strategaeth genedlaethol wedi ei pharatoi mewn partneriaeth gan y Cynulliad ac asiantaethau allanol.”⁶¹

69. Yn ddiweddarach, dywedodd Gyrfa Cymru wrthym, ar ôl strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, na fu “no detailed implementation plan to clarify the responsibilities of each partner and organisation that works with people, who are responsible for supporting them into education and training programmes.” Felly, yr oedd Gyrfa Cymru'n galw am “greater clarification and clearer direction, not only as regards strategic direction, but also to make it quite clear who is responsible for what, bearing in mind that we have to work in partnership.”⁶²

70. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, cymeradwyodd ColegauCymru ddau o argymhellion Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru 2010 am “a whole-government, multi-departmental response to tackle youth unemployment” ac “an overall Youth Engagement Strategy in receipt of stable funding, aimed at tackling disengagement at a pre-school leaving age.” Yr oedd ColegauCymru hefyd yn cytuno â'r argymhelliad am asiantaeth arweiniol “to minimise complexity and overlap,” a hefyd i fonitro cynnydd a gwneud newidiadau'n ôl yr angen.

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff A.2.1

⁶⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 86, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff E.3

⁶² Cofnod y Trafodion paragraff 29, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

71. Yr oedd Rathbone Cymru'n credu ei bod yn "proper that the responsibility for NEET rests with one government department", ond "there is the need for cross-departmental working."⁶³

72. Yr oedd Sgiliau Adeiladu Cymru'n credu:

"Tackling the NEET agenda in Wales is not and should not wholly rest with one particular department or policy team. There should be one organisation or body (not necessarily a newly created body) which would be able to coordinate a range of education and employment options for young people who are NEET."⁶⁴

Daeth i'r casgliad mai Gyrfa Cymru fyddai'r corff mwyaf addas i gymryd swyddogaeth o'r fath.

73. Croesawsom gyfeiriadau yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog at y ffaith bod ei swyddogion yn cydweithio â Phwyllgor y Cabinet ar Adfywio'r Economi i ystyried effeithiolrwydd ymyriadau sy'n rhoi cymorth i bawb sy'n ddi-waith, gan gynnwys pobl ifanc 16 i 24 oed. Y bwriad a nodwyd oedd "symleiddio ac integreiddio rhaglenni, lle bo hynny'n bosibl."⁶⁵ Yr ydym yn cefnogi ymdrechion y Gweinidog i uno adrannau'r Llywodraeth ar y mater hwn, ond ac ystyried cymhlethdod yr holl system, hoffem i'r dulliau hyn fynd yn llawer pellach.

Yr ydym yn argymhell, gan fod mater pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn trawstorri nifer o Adrannau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, y dylai un Gweinidog arwain o ran cydlynu strategaethau a chynlluniau gweithredu, monitro eu gweithredu, a bod yn atebol ar lefel genedlaethol.

74. Er mwyn unioni strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn, mae angen hefyd adolygu'r targed presennol ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn enwedig yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd bresennol. Y tro olaf i Weinidogion Cymru osod targed oedd 2006, ac yr oedd hwnnw ar gyfer plant a phobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed yn unig.

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig Rathbone Cymru tudalen 2

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Sgiliau Adeiladu Cymru tudalen 3.

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes tudalen 5

Yr ydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru adolygu a diweddarau'r strategaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel ei bod yn cynnwys y grŵp oed 16 i 25, ac y dylent gyflwyno targed cenedlaethol newydd i leihau cyfran y bobl ifanc 16 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan sicrhau bod holl Adrannau perthnasol y Llywodraeth yn gyfrifol am ddarparu'r strategaeth.

Cydweithio rhwng asiantaethau

75. Yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn datgan mai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc oedd y cyfrwng ar gyfer cydgysylltu darpariaeth leol yn erbyn polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.⁶⁶ Ac eto, mynegwyd pryder ymysg rhai tystion bod y partneriaethau hynny'n wirfoddol, nad yw eu haelodaeth yn cynnwys yr amrywiaeth eang o asiantaethau a all effeithio ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant,⁶⁷ a bod gwahaniaethau rhwng ardaloedd o ran pwy sy'n arwain.

76. Yn wir, un o brif ganfyddiadau ein hymweliad ag Info-Nation yn Abertawe oedd bod cydweithio lleol rhwng asiantaethau a phartneriaid yn ad hoc, ac yn dibynnu ar gadernid perthnasoedd unigol. Cafwyd galwadau am sefydlu system well a mwy trefnus.

77. Yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n dadlau:

“At a local level, strategies are being developed at different stages and from different points of origin: either the Children and Young People’s Partnerships or the 14-19 Networks. This in itself is not a particular concern but there is a lack of guidance as to which organisations should be included in strategies, or leading on this work.”⁶⁸

78. Yr ydym wedi nodi'r pryder y dylai'r asiantaethau fod yn cydweithio'n well ac yn fwy cydlynol ar lefel leol i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Fel rhan o'r gwerthusiad a argymhellir gennym o ddulliau awdurdodau lleol a dulliau rhanbarthol o ymdrin â phobl ifanc nad

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes tudalen 7

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Colegau Cymru paragraff 31

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru paragraff 8

ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yr ydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru ganfod, ar lefel leol, asiantaeth i arwain yng nghyswllt pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dylai'r asiantaeth hon gydlyn partneriaethau, canfod cyfrifoldebau, rheoli'r daith i bobl ifanc o un cam i'r nesaf, a monitro perfformiad.

79. Ac ystyried y gallai Gyrfa Cymru fod yn un o'r ymgeiswyr am swyddogaeth asiantaeth arweiniol, yr ydym yn bryderus i sicrhau na fydd adolygiad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r sefydliad yn arwain at golli dim o arbenigedd Gyrfa Cymru yn y maes hwn, na'u cynnydd o ran gweithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill.

Cydweithredu ar draws ffiniau

80. Ym mharagraff 33, cyfeiriwyd at y Cyd-gynllun Gweithredol sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau a swyddogaeth y Ganolfan Byd Gwaith.

81. Dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd fod ganddynt "gydberthynas gynhyrchiol" â Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n "golygu llawer o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth," a'u bod yn cydweithio i ddarparu ystod o ddarpariaeth gyffredin sydd ar gael i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.⁶⁹

82. Ac eto, dywedodd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig am y berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith:

"Mae hon eto'n ardal ble fo'r blociau yn eu lle ond bod y mortar rhwng y briciau ar goll."

83. Mae Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn gweithredu'n unol â memorandwm o ddealltwriaeth i gydnabod a pharchu eu swyddogaethau statudol a'u cylchoedd gwaith ei gilydd. Dywedodd Gyrfa Cymru yn eu tystiolaeth:

"Mae datblygiad polisi Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith effeithiol a phriodol yng Nghymru yn anodd gan ei

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith tudalennau 4-5

fod yn aml yn cael ei ddatblygu yn Lloegr lle mae'r dirwedd polisi a darpariaeth yn wahanol. Ni ddylid ei drosglwyddo i Gymru heb ystyriaeth ofalus.”⁷⁰

84. Yr oedd Fairbridge De Cymru'n feirniadol o broses atgyfeirio'r Ganolfan Byd Gwaith. Yr oeddent yn credu, er bod polisiau, cyfleoedd a buddiannau atgyfeirio'n cael eu deall ymysg rheolwyr, bod y trosiant uchel o staff rheng flaen, a oedd hefyd “under considerable pressure,” yn golygu bod manylion o'r fath yn aml yn cael eu methu neu eu camddeall; o ganlyniad, yr oedd pobl ifanc yn cael eu “shoe-horned into the wrong type of provision.”⁷¹

85. Dywedodd Rathbone Cymru wrthym fod eu trafodion â'r Ganolfan Byd Gwaith ar lefel leol yn gallu bod yn “incredibly frustrating” gan y gallai unrhyw raglen yn para rhwng pythefnos a phum wythnos i bobl ifanc 18 oed a throsodd gael effaith anffafriol ar eu budd-daliadau. Codwyd pwynt tebyg mewn tystiolaeth a gyflwynwyd gan Barnardo's Cymru, a gan bobl ifanc eu hunain ar ein hymweliad ag Info-Nation yn Abertawe.

86. Yn eu tystiolaeth atodol, dadleuodd Rathbone Cymru “the Skills agenda is devolved, but the work agenda is not – perhaps resulting at times in these not fully linking us in such a way as not to be able to achieve full impact on the lives of the people they seek to support.”⁷²

87. Yn wir, pan wnaethom ni holi'r Ganolfan Byd Gwaith, datgelwyd eu bod yn ymwybodol bod “the way in which we handle young people is not perfect,” a bod “fractures in that process that we could work better on.”⁷³ Yr oedd y diffyg rhannu data presennol rhwng Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith,⁷⁴ yn ein barn ni, yn fwy fyth o dystiolaeth o wendid y system bresennol ac o'r ffaith bod angen un strwythur i ddod â'r agenda at ei gilydd mewn modd cydlynol.

88. Yr oedd hefyd yn peri pryder i ni nad oedd y Ganolfan Byd Gwaith yn ymwybodol o brosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd megis Genesis 2⁷⁵ neu brosiectau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant megis y bartneriaeth Cadw mewn Cysylltiad yr ymwelsom â hi yn Abertawe.⁷⁶ I ni, mae hyn yn ategu tystiolaeth

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff B.1

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru tudalennau 3-4

⁷² Llythyr gan Rathbone Cymru dyddiedig 6 Gorffennaf 2010

⁷³ Cofnod y Trafodion paragraff 75, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 77, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 111, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 42, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

arall yr ydym wedi'i chael am y diffyg gwerthuso a rhannu arferion da rhwng gwahanol ardaloedd lleol (gweler paragraff 114).

89. Ar sail y dystiolaeth a gawsom, yr ydym yn bryderus iawn am y berthynas waith gyffredinol rhwng Adrannau Llywodraethau'r DU a'r Cynulliad Cenedlaethol, eu hasiantaethau a'u hamrywiol arferion. Yr ydym yn credu bod gan Weinidogion Cymru waith i'w wneud i berswadio eu cydweithwyr yn Llywodraeth y DU bod angen rhaglenni i bobl ifanc ddi-waith yng Nghymru sydd wedi'u dylunio i ddiwallu mecanweithiau cyflenwi ac anghenion lleol, a bod angen i'r asiantaethau DU gyfan sy'n gweithredu yng Nghymru gael gwell gwybodaeth am dirwedd darpariaeth yma.

Yr ydym yn argymhell y dylai Gweinidogion adolygu digonolrwydd trefniant cyfansoddiadol presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith mewn cyd-destun datganoledig a chydweithio â Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud y newidiadau y mae eu hangen i sicrhau bod y trefniant yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

90. Fodd bynnag, cawsom ein calonogi ar ôl clywed am weithwyr allgymorth y Ganolfan Byd Gwaith.⁷⁷ Clywsom gan bobl ifanc a gweithwyr prosiect yn Abertawe sut y mae cyswllt wyneb yn wyneb yn fodd llawer mwy effeithiol o helpu unigolion ar hyd y daith o ganfod addysg neu gyflogaeth.

Yr ydym yn argymhell bod Gweinidogion Cymru'n cydweithio â'r DU i sicrhau bod ymgynghorwyr personol a gweithwyr allgymorth yn ffurfio elfen ganolog, yn hytrach nag elfen ymylol, o weithgarwch y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gwella effeithiolrwydd eu rhaglenni ymgysylltu.

91. Ar fater arall, adroddodd Colegau Cymru fod colegau yng Nghymru wedi'i chael yn anodd ennill contractau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi dysgwyr dan anfantais gan eu bod wedi tueddu i ddyfarnu'r contractau hynny i ddarparwyr hyfforddiant preifat mawr sy'n gweithio ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Felly, gofynnodd y sefydliad am eglurhad o sut y gallai colegau Cymru gynnig am gontractau yn y dyfodol.

⁷⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 100, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

92. Hefyd, yr oedd nifer o dystion yn feirniadol o'r diffyg cynrychiolaeth draws-sector ar Gyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth Cymru a ddatblygodd y Cyd-gynllun Gweithredol.⁷⁸

93. O ran datblygu Rhaglen Waith newydd Llywodraeth y DU (gweler paragraffau 34 i 35 uchod), yr ydym yn eiddgar i sicrhau na chaiff problem hirdymor pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ei gorlethu gan y cynnydd posibl yn niferoedd pobl ifanc ddi-waith yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd bresennol.⁷⁹

94. Ar sail sgysiau a gawsom â phobl ifanc yn Abertawe, yn enwedig y rheini sy'n gadael unedau atgyfeirio, yr oeddem hefyd yn pryderu am gyfraddau llwyddiant ailfynediad grwpiau megis cyn-droseddwy'r ifanc ac a fyddai modd rhoi mwy o gymorth iddynt petai ei hangen o ran hyfforddiant ac addysg.⁸⁰

Yr ydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau, os bydd mwy o bobl ifanc ddi-waith yn ymgeisio am gymorth dan y Rhaglen Waith yn y dyfodol, na fydd y rheini yng Nghymru sydd dan yr anfantais fwyaf ar eu colled, ac y gellir rhoi'r rheini sydd â'r angen mwyaf ar drywydd cyflym i gael cefnogaeth ddwysach.

Cydlynu prosiectau a ariennir gan Ewrop

95. Cododd Gyrfa Cymru'r pwynt bod argaeledd Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi'r agenda ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant "wedi arwain at amlhad asiantau a phrosiectau'n gweithio gyda'r grŵp cleient." Dadleuodd hefyd nad yw mesurau canlyniadau prosiectau a ariennir gan yr UE bob amser yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru (e.e. er y gallai person ifanc fod ag "ymgysylltiad" â phrosiect a ariennir, nid yw hynny'n gyfystyr â symud ymlaen i'r farchnad lafur).⁸¹ Awgrymodd Gyrfa Cymru y dylai'r amrywiol fentrau sydd mewn lle wedi eu hariannu gan yr UE, gysylltu'n well gyda'r rhai hynny a gynigir gan asiantaethau statudol,⁸² gan enwi Wrecsam fel enghraifft o arfer da

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff B.3; Colegau Cymru, Cofnod y Trafodion paragraff 129, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁹ Cofnod y Trafodion paragraffau 24-27, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 57, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff D.1

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff A.2.1

ble mae partneriaid wedi cydweithio i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed.

96. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod prosiectau a ariennir dan Raglen Gydgyfeirio'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn peri pryder arbennig i awdurdodau lleol. Dadleuodd y Gymdeithas ei bod yn bosibl nad yw prosiectau Cyrraedd y Nod, er enghraifft, yn cyd-fynd yn strategol â chynlluniau a blaenoriaethau Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, neu eu bod yn dyblygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, hyd yn oed.⁸³

97. Cyfeiriodd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru at ddiffyg unrhyw ddadansoddi strategol o'r angen ar sail ddaearyddol, sy'n golygu, pan fydd sefydliadau'n cyflwyno cynigion am gyllid - "yn annibynnol ac mewn cystadleuaeth â'i gilydd" - yn aml ceir "gormodedd o ddarpariaeth debyg a ariennir ar gyfer pobl ifainc NEET yn yr un ardal gyda'r trosglwyddo'n digwydd ar yr un pryd." Soniasant am brofiad diweddar yn Sir Benfro ble'r oedd lleoedd dros ben mewn rhaglen Cyrraedd y Nod a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.⁸⁴

98. Felly, yr ydym yn croesawu sylwadau yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog bod ei swyddogion yn cydweithio â'r Pwyllgor Adnewyddu Economaidd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel y "sicrheir bod darpariaeth ranbarthol a lleol yn parhau i ychwanegu gwerth at ddarpariaeth y prif ffrwd ac nad yw'n dyblygu nac yn gadael unrhyw fylchau."⁸⁵

99. Credwn fod angen mecanwaith a all ganfod bylchau mewn darpariaeth, cydlynu comisiynu gwasanaethau ac osgoi dyblygu rhwng gwahanol asiantaethau, yn seiliedig ar werthuso dulliau awdurdodau lleol a dulliau rhanbarthol o ymdrin â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel yr argymhellwyd gennym ym mharagraff 38 uchod.

Yr ydym yn argymhell, er mwyn creu diwylliant o gydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio ag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gydlynu darparu prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd,

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru paragraffau 9-10

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru paragraff 4

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes tudalen 5

ac eraill, i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Meithrin y sgiliau

100. Yn ein sgysiau â phobl ifanc yn Abertawe, clywsom fod arnynt eisiau i sefydliadau addysg bellach roi mwy o hyblygrwydd o ran dyddiadau dechrau drwy gydol y flwyddyn, barn a rannwyd gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon.⁸⁶ Dywedodd Gyrfa Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn, ond bod angen i hyn fod yn arfer mwy cyffredin.⁸⁷

101. Yr oedd tystiolaeth ysgrifenedig Gweithredu dros Blant yn sôn am y:

“Huge shortage of work placements, a shortage of schemes to match the interests of young people and most training providers are ill equipped to support young people with multiple difficulties.”⁸⁸

102. Dadleuodd Gyrfa Cymru fod mynd at gyflogwyr unigol i’w hannog i roi cyfleoedd am swyddi i bobl ifanc yn ddull mwy llwyddiannus nag ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol. Hefyd, tynnodd y sefydliad sylw at y diffyg dysgwyr sy’n symud ymlaen i raglenni prentisiaeth.⁸⁹

103. Tynnodd Fairbridge De Cymru sylw at y ffaith bod angen i bobl ifanc gael “sgiliau meddal” er mwyn symud ymlaen yn llwyddiannus o fewn sbectrwm cyflogaeth, oherwydd:

“All too often we see young people being sent to training providers who are not ready to engage at that level of learning. This results in them dropping out and either being lost in the system or sent around the system again to face continual feelings of failure.”⁹⁰

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, paragraff 9.c

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff A.3.1

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Gweithredu dros Blant paragraff 3.3

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru paragraff A.3.1

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru tudalen 4

104. Mae'r farn hon yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein sgysiau â phobl ifanc yn Abertawe. Fodd bynnag, dadleuodd Fairbridge De Cymru,⁹¹ Rathbone Cymru⁹² a Llamau⁹³ fod y ffocws presennol ar ganlyniadau mesuradwy yn hytrach na rhai ansoddol yn dangos tuedd tuag at ddarparu cymwysterau achrededig yn hytrach na datblygu sgiliau meddal, megis newid agweddau a datblygu personol.

Yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu sut y gellid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i gaffael “sgiliau meddal” ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – a’r rheini sydd mewn perygl o fod felly – mewn lleoliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Cymorth hyfforddi

105. Dywedodd ColegauCymru:

“It is essential that there are sufficient numbers of well trained learning coaches and others with appropriate skills giving support to young people over housing, finances and drug misuse. Those giving support must themselves be entitled to a clear career path with continuing professional development opportunities to ensure that they perform to the highest standards.”⁹⁴

106. Pwysleisiodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon bwysigrwydd ariannu ymyriadau cymorth i hyfforddwyr dysgu mewn ysgolion uwchradd a cholegau oherwydd “an investment at this stage will contribute significantly to improving the country’s future overall economic situation.”⁹⁵

107. Rhoddodd nifer o sefydliadau bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cefnogaeth ddwys i bobl ifanc,⁹⁶ yn enwedig i’r grwpiau anoddaf eu cyrraedd. Cafwyd teimlad cryf iawn o’r sgysiau a gawsom â grwpiau yn Abertawe bod rhai pobl ifanc wedi’u hanwybyddu’n llwyr gan y system. Felly, yr oedd gennym ddiddordeb yn sylw’r Gweinidog am yr

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Fairbridge De Cymru tudalen 4

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig Rathbone Cymru tudalen 1

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig Llamau tudalen 2

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru paragraff 24

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, paragraff 9.a

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig y Gronfa Loteri Fawr paragraff 1.2; tystiolaeth ysgrifenedig Swyddogion Cyswllt Gofal Maeth Cymru paragraff 3.2

angen am “trusted guides” a allai roi cymorth unigol i bobl ifanc gyda’r penderfyniadau y byddant yn eu gwneud.⁹⁷

Yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hyfforddwyr ymgysylltu neu allgymorth ar gael i ymyrryd unrhyw bryd ym mywyd person ifanc i roi cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o faterion yn ymwneud â theulu, arian, addysg, cyflogaeth neu iechyd.

Casgliadau

108. Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn sylweddol – bron i 70,000 o’r rheini sy’n 16 i 24 oed, ac mae’n effeithio ar dros un o bob pump o bobl 19 i 24 oed.

109. Er bod y rhesymau am i bobl ifanc beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gymhleth, ni ddylai hynny esgusodi cymhlethdod eithafol y system bresennol i wasanaethu’r bobl ifanc hynny. Yn ein barn ni, mae’r cymhlethdod hwnnw’n arwain at aneffeithiolrwydd ac aneffeithlonrwydd.

110. Mae angen defnyddio dull mwy cyfannol. Mae angen gwell dealltwriaeth o faint a natur y mater ac mae angen i bob polisi ac ymyriad sy’n effeithio ar y bobl ifanc hyn fod yn ddealladwy, yn gysylltiedig ac wedi’i unioni o fewn fframwaith cyffredinol o amcanion a thargedau clir.

111. Dechreuodd yr ymchwiliad hwn drwy ganolbwyntio ar bobl ifanc 16 i 24 oed, ond sylweddolasom yn sydyn fod angen i ni ddefnyddio golwg ehangach gan fod nifer o bobl ifanc yn dechrau peidio â mynychu’r ysgol o oed llawer iau, rhai mor ifanc â phedair.

112. Yr ydym yn sicr y ceir effeithiau anffafriol hirdymor ar economi Cymru ac ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc sy’n disgyn allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yr ydym yn cytuno â thystion y bydd atal yn hytrach na gwella’n hanfodol o ran lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, ac yn helpu i unioni materion rhyngberthynol megis cyfiawnder cymdeithasol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.⁹⁸ Yng nghyd-destun amgylchedd ariannol heriol, mae’n bwysicach fyth

⁹⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 158, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Sgiliau Adeiladu Cymru tudalen 1.

sicrhau bod strategaethau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ar lawr gwlad.

113. Yr oedd Colegau Cymru'n credu bod angen i'r polisïau i ddod â nifer o'r bobl ifanc hyn i'r brif ffrwd fod yn "innovative and radical". Fodd bynnag, dywedodd Gyrfa Cymru wrthym:

"We know what works. There is enough research out there to tell us what works. There is lots of good practice in Wales. We need outreach and engagement with this group if we are not in touch. We need to identify their individual needs... We need a better partnership arrangement, locally and nationally, with advocacy and brokerage for these young people, and the crucial transition support when they move from one stage to the next. Research has shown that incentives and rewards for these young people are important. So is effective staffing, with the right skills and qualifications, and a clear view of the outcomes that people want to achieve."⁹⁹

114. Er bod yr un tyst hwn wedi dweud wrthym ein bod yn gwybod beth sy'n gweithio yng Nghymru, cawsom dystiolaeth gan eraill nad yw gwybodaeth am bolisiau ac arfer da'n cael ei rhannu cystal ag y dylai, o reidwydd. Cawsom dystiolaeth hefyd nad yw'r dull a ddefnyddiwyd i ariannu prosiectau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant drwy'r Rhaglen Gydyfeirio mor gydgysylltiedig ag y gallai fod, a bod hynny wedi cyfrannu at ddyblygu darpariaeth.

115. Yn y cyfamser, mae ymddieithrio a diweithdra ieuentid yn broblem sy'n cynyddu, ac oherwydd eu cymhlethdod, ni ellir eu cywiro drwy drin pobl ifanc fel un grŵp. Yn hytrach, mae angen rhoi'r person ifanc yn ganolog er mwyn canfod a diwallu anghenion unigol.¹⁰⁰ Mae cefnogaeth bersonol ddwys wedi'i thargedu, ynghyd â chyngor a chyfarwyddyd wyneb yn wyneb am yrfaoedd, i gyd yn gynhwysion hanfodol ar gyfer system fwy effeithiol.

116. Mae'n ymddangos i ni nad oes prinder dyhead na strategaethau yng nghyswllt pobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ond bod angen gweithredu mwy effeithiol ar lawr gwlad – gweithio'n well mewn partneriaeth a gwell cydweithredu rhwng gwahanol asiantaethau i sicrhau continwwm o gefnogaeth, a chydlyniaid rhwng gwahanol raglenni. Yn amlwg, fodd

⁹⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 19, 10 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Gweithredu dros Blant paragraff 3.2

bynnag, nid yw dull dewisol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef model “collaborative working and a multi-agency”,¹⁰¹ yn ddigonol.

117. Yn sicr, mae angen amrywio'r ddarpariaeth fel y gall pobl ifanc sy'n amheus o ddarpariaeth statudol gael eu lleoli â darparwyr y maent yn teimlo'n gyfforddus â hwy.¹⁰² Mae hyn yn golygu bod cydweithredu rhwng partneriaid yn hollbwysig o ran osgoi cystadleuaeth a dyblygu darpariaeth ac adnoddau.

118. Fodd bynnag, yr ydym yn argyhoeddedig bod angen arweinyddiaeth gliriach ac ymroddedig – yn gyntaf ar lefel genedlaethol i ddod â'r agenda hon at ei gilydd, bod yn atebol amdani a'i monitro, ac yn ail ar lefelau lleol i atgyfnerthu a chydlynu gweithredu rhwng y gwahanol bartïon sy'n ymwneud â'r mater ac i ddarparu ymyriadau a chymorth cryf, cyson a hirdymor. Ar hyn o bryd, nid oes dim un corff yn gyfrifol nac yn atebol, naill ai'n genedlaethol nac yn lleol. Rhaid i'r sefyllfa hon newid.

119. Mae'n peri pryder mawr bod y system yn dal i fethu â helpu cymaint o'n pobl ifanc. Yr ydym yn ffyddiog y bydd argymhellion yr adroddiad hwn yn annog Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynigion am wasanaeth mwy effeithiol i'r rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae integreiddio rhwng yr agendâu datblygiad economaidd, addysg a sgiliau'n hollbwysig os ydym am sicrhau bod gan ein pobl ifanc yr wybodaeth a'r sylfaen sgiliau a all eu cynnal drwy gydol eu bywydau.

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion paragraff 131, 24 Mehefin 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig y Gronfa Loteri Fawr paragraff 1.2

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar a'r cyflwyniadau ysgrifenedig cysylltiedig drwy ddilyn y dolenni sydd ynghlwm.

10 Mehefin 2010 <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=186396&ds=7/2010>

Gyrfa Cymru <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184633&ds=7/2010>

ColegauCymru <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184799&ds=7/2010>

Rathbone Cymru <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184804&ds=7/2010>

Tystiolaeth atodol
Rathbone Cymru <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184804&ds=7/2010>

Fairbridge De
Cymru <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184560&ds=7/2010>

Ymddiriedolaeth
Tywysog Cymru

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184570&ds=7/2010>

17 Mehefin 2010

Grwpiau ffocws o
bobl ifanc yn Info-
Nation, Abertawe

[Nodyn am Ymweliad y Pwyllgor Menter a
Dysgu ag Info-Nation, Abertawe](#)

24 Mehefin 2010

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=188882&ds=7/2010>

Yr Adran Gwaith a
Phensiynau /
Canolfan Byd Gwaith

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=187123&ds=7/2010>

Y Gweinidog dros
Blant, Addysg a
Dysgu Gydol Oes
(Llywodraeth
Cynulliad Cymru)

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=199469&ds=7/2010>

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn drwy ddilyn y dolenni sydd ynghlwm.

Sefydliad	Tystiolaeth
Gweithredu dros Blant	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets2.htm
Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets1.htm
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184576&ds=7/2010
Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets3.htm
Barnardo's Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/barnardo_s_cymru2.doc.pdf

Y Gronfa Loteri Fawr	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets4.htm
Chwarae Teg	http://www.cynulliadcymru.org/el_6_-_chwarae_teg.pdf
Sgiliau Adeiladu Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=184582&ds=7/2010
Dr Francis B Cowe, Prifysgol Cymru, Casnewydd	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets12.htm
Cymorth Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets5.htm
e-skills UK	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets6.htm
Estyn (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)	http://www.cynulliadcymru.org/10_-_estyn_-_hmci_response.pdf

Swyddogion Cyswllt Gofal Maeth Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/11_-_foster_care_associates_cymru_submission.pdf
Llamau	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets7.htm
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar	http://www.cynulliadcymru.org/13_-_ndcs_cymru.pdf
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/14_-_ntfw.pdf
Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets8.htm
Sandra Young	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets13.htm
Sgil Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets9.htm
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets11.htm

Working Links

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_neet_responses/el3_neets15.htm